# Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

## Polisi Gwrthfwlio

## *Anti-Bullying Policy*

Amcanion y polisi hwn

Mae Polisi Gwrthfwlio Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn amlinellu'r hyn y bydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ei wneud i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad bwlio.

Nodau

Yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ein nodau yw:
- Datblygu cymuned ofalgar, arfer consýrn a pharch tuag at les eraill a phwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd da rhwng pobl.
- Darparu amgylchedd dysgu heb unrhyw fygythiad nac ofn.
- Sefydlu ethos ac awyrgylch o fewn yr ysgol a fydd yn gwneud bwlio'n annerbyniol.
- Adnabod achosion ac effeithiau bwlio.
- Datblygu cyfres o ddulliau sydd wedi'u bwriadu i atal bwlio.
- Ymdrin â digwyddiad bwlio cyn gynted ag y bydd yn codi.
- Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr holl staff a disgyblion er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Diffiniadau o Fwlio

Nid oes diffiniad cyfreithiol o fwlio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r canllawiau statudol 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb (Llywodraeth Cymru 2019) yn diffinio bwlio fel
"**Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, a ailadroddir fel arfer dros amser, sy'n brifo unigolyn arall naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol a hynny'n fwriadol**".

Mae llawer o ddiffiniadau o fwlio ond mae'r rhan fwyaf o'r farn:
- Ei fod yn fwriadol niweidiol (gan gynnwys bod yn ymosodol)
- Ei fod yn cael ei ailadrodd dros gyfnod o amser (gan gydnabod y gall hyd yn oed digwyddiad unigol achosi trawma i ddisgybl a'i wneud yn nerfus y gallai ddigwydd eto yn y dyfodol)
- Ei bod hi'n anodd i ddisgyblion a dargedir amddiffyn eu hunain yn erbyn y disgybl arall neu'r disgyblion eraill.

Beth bynnag fo'r diffiniad, nid yw ymddygiad bwlio'n dderbyniol ac ni fydd yn cael ei oddef.

Gall bwlio ddigwydd i unrhyw un, ar unrhyw adeg, ar unrhyw ffurf.  Mae'r polisi hwn yn cwmpasu pob math o fwlio gan gynnwys:
- Emosiynol – bod yn anghyfeillgar, eithrio, poenydio, galw enwau, gwawdio, gwatwar, gwneud sylwadau sarhaus, clebran, eithrio pobl o grwpiau a lledaenu sïon niweidiol ac anwir
- Corfforol – cicio, taro, mynd ag eiddo
- Rhywiol - cyswllt corfforol dieisiau neu sylwadau rhywiol ddifrïol
- Homoffobaidd oherwydd neu gan ganolbwyntio ar fater rhywioldeb neu fod yn gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol

- Galw enwau ar lafar, coegni, sibrydion, pryfocio
- Rhagfarn sy'n gysylltiedig â hil, crefydd neu ddiwylliant.
- Perthynol gan fod yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol, ymddangosiad, statws cymdeithasol neu gyflyrau iechyd.
- Seiberfwlio - negeseuon testun a negeseuon electronig amhriodol (gan gynnwys trwy wefannau, safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol a gwefannau / apiau negeseua); anfon delweddau tramgwyddus neu ddiraddiol dros y ffôn neu dros y rhyngrwyd
- Bwlio gofalwyr ifanc neu blant sy'n derbyn gofal neu fwlio sy'n gysylltiedig fel arall ag amgylchiadau'r cartref.

<u>Atal, adnabod ac ymateb i fwlio</u>

Byddwn yn:
- Gweithio gyda staff ac asiantaethau allanol i adnabod pob math o fwlio a ysgogir gan ragfarn.
- Codi ymwybyddiaeth am fwlio a'r polisi.
- Cynyddu dealltwriaeth am wahanol rolau ac achosion bwlio ac yn helpu i adeiladu ethos gwrthfwlio.
- Mynd ati'n weithredol i ddarparu cyfleoedd systematig i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, gan gynnwys eu gwytnwch ac i'w helpu i reoli eu perthnasoedd ag eraill.
- Ystyried pob cyfle i fynd i'r afael â bwlio, gan gynnwys trwy'r cwricwlwm, arddangosfeydd, cymorth gan gymheiriaid a'r Cyngor Ysgol.
- Hyfforddi'r holl staff gan gynnwys staff amser cinio i adnabod bwlio a dilyn polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar fwlio.

<u>Cynnwys disgyblion</u>

Byddwn yn:
- Holi barn plant a disgyblion yn rheolaidd am faint a natur bwlio.
- Sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i fynegi gofidiau a phryderon am fwlio.
- Sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o'r ystod o sancsiynau y gellir eu cyflwyno yn erbyn y rhai sy'n bwlio.
- Cynnwys disgyblion mewn ymgyrchoedd gwrthfwlio yn yr ysgol.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i fanylion llinellau cymorth a gwefannau.
- Cynnig cymorth i ddisgyblion sydd wedi cael eu bwlio.
- Gweithio gyda disgyblion sydd wedi bod yn bwlio er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd ganddynt.

<u>Arwyddion a Symptomau</u>

Gall plentyn ddynodi trwy arwyddion neu ymddygiad ei fod yn cael ei fwlio. Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r arwyddion posibl hyn ac y dylent ymchwilio pan fo plentyn yn dangos yr arwyddion neu'r ymddygiadau canlynol:
- os yw'n ofni cerdded i neu o'r ysgol

- os nad oes ar blentyn eisiau mynd ar y bws ysgol / bws cyhoeddus
- os yw’n erfyn am gael mynd i'r ysgol yn y car
- os yw’n newid ei drefn arferol
- os yw’n amharod i fynd i'r ysgol (ffobia am fynd i’r ysgol)
- os yw’n dechrau triwanta
- os yw’n dechrau bod yn dawedog, yn bryderus, neu’n brin o hyder
- os yw’n datblygu atal dweud
- os yw’n ceisio neu'n bygwth cyflawni hunanladdiad neu'n rhedeg i ffwrdd
- os yw’n llefain wrth fynd i gysgu yn y nos neu’n cael hunllefau
- os yw’n teimlo'n sâl yn y bore
- os yw’n dechrau gwneud yn wael yn ei waith ysgol
- os yw’n dod adref gyda dillad wedi'u rhwygo neu lyfrau wedi'u difrodi
- os oes gan blentyn eiddo sydd wedi'i ddifrodi neu sydd wedi “mynd ar goll”
- os yw’n gofyn am arian neu'n dechrau dwyn arian (i’w dalu i fwli)
- os yw arian cinio neu arian arall "ar goll" byth a beunydd
- os oes gan blentyn friwiau neu gleisiau anesboniadwy
- os yw’n dod adref yn llwgu (am bod ei arian / ei ginio wedi cael ei ddwyn)
- os yw’n mynd yn ymosodol, yn tarfu neu'n bod yn afresymol
- os yw’n bwlio plant eraill neu frawd neu chwaer
- os yw’n rhoi'r gorau i fwyta
- os yw’n ofni dweud beth sydd o'i le
- os yw’n rhoi esgusodion annhebygol am unrhyw un o'r uchod
- os yw’n ofni defnyddio'r rhyngrwyd neu ffôn symudol
- os yw’n nerfus ac yn gynhyrfus pan fo’n cael neges seiber

Gallai'r arwyddion a'r ymddygiadau hyn hefyd nodi problemau eraill ond dylid ystyried bwlio yn bosibilrwydd.

<u>Beth sydd ddim yn gyfystyr â bwlio?</u>

Ystyrir bod rhai ymddygiadau, er eu bod yn annerbyniol, ddim yn gyfystyr â bwlio. Ymdrinnir â'r achosion hyn yn unol â pholisi ymddygiad cadarnhaol yr ysgol ac i geisio atal digwyddiad rhag gwaethygu o bosibl i fod yn gyfystyr â bwlio.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn achosion na fyddid fel arfer yn ystyried eu bod yn gyfystyr â bwlio:

- anghydfod rhwng ffrindiau
- achos unigol o ymladd
- dadl neu anghytundeb
- ymosodiad corfforol unigol
- sarhau a thynnu coes
- achos unigol o drosedd casineb

Strategaethau ar gyfer Disgyblion

**Rydym yn annog disgyblion i roi gwybod am ddigwyddiadau:**

- Gall disgyblion yr ysgol hon fod yn dawel eu meddwl y byddir yn ymateb â sensitifrwydd i’w pryderon. Bydd pob adroddiad yn cael ei gymryd o ddifrif ac yn arwain at ymchwiliad
- Bydd cyfrinachedd i unrhyw un sy'n rhannu gwybodaeth yn cael ei barchu, lle y bo hynny'n bosibl
- Mae cyfleoedd i blant gyfleu pryderon yn cynnwys blwch problemau, sef y 'Blwch Becso', sgyrsiau dyddiol ynglŷn â lles, Amser Cylch, mynediad at aelodau o staff

Strategaethau ar gyfer Rhieni a Gofalwyr

Hysbysir rhieni y dylent gymryd y camau canlynol os ydynt yn poeni am achos posibl o fwlio.

- Rhowch wybod i'r ysgol / siaradwch gyda staff yr ysgol os ydych yn ymwybodol neu'n amau bod bwlio'n digwydd. Y pwynt cyswllt cyntaf yw athro neu athrawes dosbarth eich plentyn. Gellir cysylltu â nhw ar 01656 815580 neu drwy adael neges yn nerbynfa'r ysgol.

Bydd yn helpu i benderfynu pa gamau i'w cymryd os gallwch gofio efallai nad oes gan yr athro neu athrawes unrhyw syniad bod eich plentyn yn cael ei fwlio neu efallai eu bod wedi clywed adroddiadau croes i’w gilydd am ddigwyddiad.

- Byddwch mor benodol â phosibl ynghylch yr hyn y mae eich plentyn yn ei ddweud sydd wedi digwydd; rhowch ddyddiadau, lleoliadau ac enwau disgyblion eraill a oedd yn gysylltiedig â’r digwyddiadau.
- Nodwch pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd.
- Gofynnwch a oes unrhyw beth y gallwch chi ei wneud i helpu'ch plentyn.
- Cadwch mewn cysylltiad â'r ysgol; rhowch wybod iddynt os bydd pethau'n gwella yn ogystal ag os bydd problemau'n parhau.
- Cefnogwch yr ysgol os oes angen cymryd camau pellach.

Gall rhieni roi cyngor i'w plentyn a rhoi cynnig ar y camau canlynol:

- Sicrhewch eich plentyn nad eu bai nhw yw bwlio
- Dywedwch wrthynt eich bod yn eu caru ac yn eu cefnogi 100%
- Ceisiwch roi hwb i’w hyder
- Cryfhewch eu cysylltiadau â ffrindiau lle bynnag y bo modd
- Cynghorwch eich plentyn i aros gyda grwpiau o blant
- Anogwch hwy i ymddangos yn hyderus hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n teimlo felly y tu mewn
- Dywedwch wrthynt am anwybyddu'r ymddygiad bwlio trwy esgus peidio â chymryd atynt – gan wneud dim byd ond troi a cherdded i ffwrdd
- Ceisiwch eu cynghori i beidio ag ymladd yn ôl ac i roi gwybod i rywun yn lle hynny
- Cynorthwywch hwy i ymarfer cerdded yn dalog – mae iaith ein corff yn

adlewyrchu sut rydyn ni'n teimlo amdanom ni ein hunain
- Anogwch eich plentyn i fod yn bendant trwy ddweud 'na' neu 'gad lonydd i mi' mewn llais uchel
- Cadwch gofnod / dyddiadur o'r holl ddigwyddiadau, amseroedd a lleoliadau a'r hyn a ddwedir

Ymyriadau ar ôl digwyddiad

Bydd y ffordd ymlaen yn dibynnu ar oedran a natur yr amgylchiadau. Gall yr ymyriadau priodol gynnwys:

- Cyfryngu
- Dulliau adferol
- Datblygu gwytnwch
- Cymorth gan gymheiriaid
- Sancsiynau gan yr ysgol
- Cymorth unigol, er enghraifft sesiynau gyda Chynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)

Polisïau Eraill

Gellir darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau a dogfennau perthnasol eraill yr ysgol, gan gynnwys:

- Y Polisi Diogelu
- Y ddogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- Y Polisi Ymddygiad Cadarnhaol
- Y cod a'r cynllun gwaith Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cyfrifoldebau

Nid yw'r Polisi hwn ond yn gweithio os yw'n sicrhau bod holl gymuned yr ysgol yn deall nad yw bwlio'n cael ei oddef ac yn deall y camau a fydd yn cael eu cymryd i atal bwlio ac ymateb iddo.

Mae cyfrifoldeb ar:
- Lywodraethwyr yr Ysgol i fod â rôl arweiniol o ran monitro ac adolygu'r polisi hwn.
- Y Llywodraethwyr, y Pennaeth, Uwch Reolwyr, Staff Addysgu a Staff Nad Ydynt yn Addysgu i fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'i weithredu yn y ffordd briodol.
- Y Pennaeth i gyfleu'r polisi i gymuned yr ysgol.
- Y Disgyblion i ymlynu wrth y polisi.

Gwerthuso

Bydd y polisi gwrthfwlio hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan gynnwys holl staff yr ysgol. Bydd adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal bob tair blynedd neu'n gynharach os bydd angen.

Objectives of this Policy

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr Anti-Bullying Policy outlines what Ysgol Gymraeg Bro Ogwr will do to prevent and tackle bullying behaviour.

Aims

At Ysgol Gymraeg Bro Ogwr we aim:

- To develop a caring community, exercising concern and respect for the welfare of others and emphasising the importance of good human relationships.
- To provide a learning environment free from any threat or fear.
- To establish an ethos and atmosphere within the school which will make bullying unacceptable.
- To identify the causes and effects of bullying.
- To develop a series of approaches which are designed to prevent bullying.
- To deal with an incident of bullying as soon as it arises.
- To clearly identify what is expected of all staff and pupils in order to achieve these objectives.

Definitions of Bullying

There is no legal definition of bullying in Wales. However, statutory guidance 'Rights, Respect, Equality 9WG 2019) defines bullying as
"**Behaviour by an individual or a group, usually repeated over time, that intentionally hurts another individual either physically or emotionally**".

There are many definitions of bullying but most consider it to be:

- Deliberately hurtful (including aggression)
- Repeated over a period of time (whilst recognising that even a one-off incident can leave a pupil traumatised and nervous of future recurrence)
- Difficult for targeted pupils to defend themselves against the other pupil or pupils.

Whatever the definition, bullying behaviour is not acceptable and will not be tolerated.

Bullying can happen to anyone, at any time in any form. This policy covers all types of bullying including:

- Emotional – being unfriendly, excluding, tormenting, name calling, taunting, mocking, making offensive comments, gossiping, excluding people from groups and spreading hurtful and untruthful rumours
- Physical – kicking, hitting, taking belongings
- Sexual - unwanted physical contact or sexually abusive comments
- Homophobic because of or focusing on the issue of sexuality or related to sexual orientation

- Verbal name calling, sarcasm, rumours, teasing
- Prejudice related to race, religion or culture.
- Relational related to additional learning needs, appearance, social status or health conditions.
- Cyber bullying - inappropriate text messaging and electronic messaging (including via web-sites, Social Networking sites and messaging sites / apps); sending offensive or degrading images by phone or via the internet
- Bullying of young carers or looked after children or otherwise related to home circumstances.

Preventing, identifying and responding to bullying

We will:

- Work with staff and outside agencies to identify all forms of prejudice-driven bullying.
- Raise awareness about bullying and the policy.
- Increase understanding of the different roles and causes of bullying and help build an anti-bullying ethos.
- Actively provide systematic opportunities to develop pupils' social and emotional skills, including their resilience and to help them manage their relationships with others.
- Consider all opportunities for addressing bullying including through the curriculum, displays, peer support and the School Council.
- Train all staff including lunchtime staff to identify bullying and follow school policy and procedures on bullying.

Involvement of pupils

We will:

- Regularly canvas children and pupils' views on the extent and nature of bullying.
- Ensure pupils know how to express worries and anxieties about bullying.
- Ensure all pupils are aware of the range of sanctions that may be applied against those engaging in bullying.
- Involve pupils in anti-bullying campaigns in schools.
- Publicise the details of helplines and websites.
- Offer support to pupils who have been bullied.
- Work with pupils who have been bullying in order to address the problems they have.

Signs and Symptoms

A child may indicate by signs or behaviour that he or she is being bullied. Adults should be aware of these possible signs and that they should investigate if a child:

- is frightened of walking to or from school
- doesn't want to go on the school / public bus

- begs to be driven to school
- changes their usual routine
- is unwilling to go to school (school phobic)
- begins to truant
- becomes withdrawn anxious, or lacking in confidence
- starts stammering
- attempts or threatens suicide or runs away
- cries themselves to sleep at night or has nightmares
- feels ill in the morning
- begins to do poorly in school work
- comes home with clothes torn or books damaged
- has possessions which are damaged or " go missing"
- asks for money or starts stealing money (to pay bully)
- has dinner or other monies continually "lost"
- has unexplained cuts or bruises
- comes home starving (money / lunch has been stolen)
- becomes aggressive, disruptive or unreasonable
- is bullying other children or siblings
- stops eating
- is frightened to say what's wrong
- gives improbable excuses for any of the above
- is afraid to use the internet or mobile phone
- is nervous & jumpy when a cyber message is received

These signs and behaviours could also indicate other problems but bullying should be considered a possibility.

<u>What is not bullying?</u>

Some behaviour, though unacceptable, is not considered bullying. These instances will be dealt with in accordance with the school's positive behaviour policy and to try and prevent an incident potentially escalating to become bullying.

The following examples are cases which would not normally be considered bullying:

- friendship fallouts
- a one-off fight
- an argument or disagreement
- a one-off physical assault
- insults and banter
- a one-off instance of hate crime

<u>Strategies for Pupils</u>

**We encourage reporting of incidents:**

- Pupils in this school can be assured that their concerns will be

responded to with sensitivity. All reports will be taken seriously and investigated
- Confidentiality for anyone who shares information will be respected, where possible
- Opportunities for children to communicate concerns include a problem box 'Blwch Becso', daily check-ins, Circle Time, access to members of staff

Strategies for Parents and Carers

Parents should be advised that they should take the following action if they are concerned about possible bullying.
- Inform the school / talk to school staff if you are aware or suspect bullying is taking place. The first contact point is your child's class teacher. They can be contacted on 01656 815580 or by leaving a message at the school reception.

It will help to sort out what action to take if you can bear in mind that the teacher may have no idea that your child is being bullied or may have heard conflicting accounts of an incident.

.

- Be as specific as possible about what your child says has happened; give dates, places and names of other pupils involved.
- Make a note of what action the school intends to take.
- Ask if there is anything you can do to help your child.
- Stay in touch with the school; let them know if things improve as well as if problems continue.
- Support the school if further action needs to be taken.

Parents can advise their child and try the following steps:
- Assure your child that bullying is not their fault
- Tell them that you love them and support them 100%
- Try to boost their confidence
- Strengthen their friendships wherever possible
- Advise your child to stay with groups of children
- Encourage them to put on a confident front even when they don't feel that way inside
- Ignore the bullying behaviour by pretending not to be upset – just turn and walk away
- Try to advise they do not fight back and to report instead
- Practice walking tall – our body language reflects how we feel about ourselves
- Encourage your child to be assertive by saying 'no' or 'leave me alone' in a loud voice
- Keep a record / diary of all the events, times and places and what is said.

Interventions after an incident

The way forward will depend on the age and nature of the circumstances. Appropriate interventions may include:

- Mediation
- Restorative approaches
- Building resilience
- Peer support
- School sanctions
- Individual support, for example, ELSA sessions

Other Policies

This policy may be read in conjunction with other relevant school policies and documents, including:

- Safeguarding Policy
- Keeping Learners Safe document
- Positive Behaviour Policy
- RSE code and scheme of work

Responsibilities

This Policy only works if it ensures that the whole school community understands that bullying is not tolerated and understands the steps that will be taken to both prevent and respond to bullying.

It is the responsibility of:

- School Governors to take a lead role in monitoring and reviewing this policy.
- Governors, the Head teacher, Senior Managers, Teaching and Non Teaching staff to be aware of this policy and implement it accordingly.
- The Head teacher to communicate the policy to the school community.
- Pupils to abide by the policy.

Evaluation

This Anti-Bullying policy will be kept under regular review involving all school staff. A formal review will be undertaken every three years or sooner if necessary.

Dyddiad Adolygu / Date of review: Medi / Sept 2024